CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 20 Hydref 2020

Presennol: Cyng. Sharon Parry (Cadeirydd)
Cyng. Celfyn Furlong
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Siân Enfys Jones
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

1. Ymddiheuriadau: Cyng. Gordon Owen, William Victor Owen a Beryl Salisbury.

Adroddwyd fod y Cyng. Victor Owen wedi colli ei dad yng nghyfraith yn ddiweddar ac roedd y Cynghorwyr a'r clerc eisiau cyfleu eu cydymdeimlad dwysaf i'r teulu.

2. Datganiad o ddiddordeb: - dim

Cofnodion cyfarfod 15 Medi 2020
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Celfyn Furlong, eilio Cyng. Einir Thomas.)

4. Materion yn codi o'r cofnodion:

4.1 Cae Chwarae

i. Cytunwyd i ofyn i C. Redmond gael gwared â'r fainc picnic arall am ei bod wedi dirywio

ii. Cynigodd Cyng. Dyfed Williams osod yr arwyddion newydd.

iii. Roedd Kenton Jones Ltd. wedi cytuno i roi sedd yn y tŷ chwarae ac roeddent yn bwriadu gosod y strwythur a bwrdd picnic yn y flwyddyn newydd.

iv. Byddai'r clerc yn trefnu i'r atgyweiriadau gael eu gwneud ar y ceffyl siglo.

4.2 Wefan - byddai'r clerc yn paratoi datganiad cydymffurfiaeth ar gyfer y wefan.

4.3 Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion:

Gofynnwyd i'r clerc edrych os oedd unrhyw waith i'w wneud ar y llochesi fysiau.

5. Penderfyniadau Cynllunio: Dim

6. Ceisiadau Cynllunio

Llofnod……Cadeirydd…….

6.1 LUE 2020/ 14 Mon Caravans, Caergeiliog

Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol o'r safle fel swyddfa, garej/gweithdy, depo carafanau a chynwysyddion hunan-storio - cadarnhawyd bod y safle wedi'i ddefnyddio at y diben yma ers blynyddoedd lawer.

7. Materion Ariannol

Cyflwynwyd a chadarnhawyd:

i. yr adroddiad ariannol am y cyfnod 1.9.2020 hyd at 30.9.2020
ii. chysyniadau a datganiadau banc,
iii. cyfrifon 2020/21 hyd yma.

Yn dilyn trafodaeth fer am y cyfrifon a'r gwariant, gofynnwyd i'r clerc gael prisiau cyfoes ar gyfer meinciau a hysbysfyrddau.

Cyfrif Cyfredol £17,900.93, Cyfrif Cadw £3,938.47

8. Taliadau i'w gwneud

Cyflog (Medi)	£276.21	GMS Garden Services	£120.00
C. Redmond	£45.00		

Cytunwyd i dalu y rhain

9. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:

9.1 Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021

9.2 Datganiad ysgrifenedig y Gweinidogion Cam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth

9.3 Un Llais Cymru - Bwletin Newyddion

9.4 Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Hydref.

9.5 Ymgynghoriad ar Sefydlu Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021

9.6 Ymgynghori – Rheoliadau ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig

9.7 Datganiad - Protocol newydd yn rhoi gwell mynediad i sgriwtini

9.8 Cynlluniau sydd i ddod ar gyfer ymgynghoriad rhithiol ar Fferm Wynt Alltreath Awel y

Llofnod……Cadeirydd…….

Môr

9.9 Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021

9.10 Gwybodaeth ynghylch cynnal cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned

9.11 Canllawiau Cynllunio Atodol - Ymgynghoriad Cyhoeddus

10. Adroddiadau Cynghorwyr

10.1 Adroddodd Cyng. Gwilym Jones y byddai Hosbis Dewi Sant yn defnyddio'r Neuadd y Pentref dros dro fell le i ddidoli a storio rhoddion. Yn anffodus bu'n rhaid cau tair o'u siopau bach gan gynnwys yr un yn y Fali oherwydd Coronafeirws.

10.2 Dywedodd Cyng. Furlong fod nifer o gerbydau yn goryrru trwy'r pentref, byddai'r clerc yn gofyn a allai fan 'Go Safe' ddod yna.

11. Cyfarfod Nesaf – 17 Tachwedd 2020.

Llofnod……Cadeirydd…….